# YR ATODLEN

Erthygl 3(2)

## Diwygiadau Canlyniadol

### Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Contractau) 1997

**1.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Contractau) 1997 yn lle "the auditor appointed under section 13 of that Act to audit the accounts of the authority in accordance with Chapter 1 of Part 2 of that Act" rhodder "the Auditor General for Wales".

### Gorchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998

**2.** Yn erthygl 4(2)(c)(v) o Orchymyn Hepgor Contractau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 ar ôl "the Audit Commission or" mewnosoder "a local government body in Wales whose accounts are audited by".

### Rheoliadau Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1998

**3.** Ym mharagraff 16 o Atodlen 2 (Cyflogwyr sy'n esempt o yswiriant) i Reoliadau Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1998(**1**) yn lle "The Auditor General for Wales" rhodder "The Wales Audit Office".

### Rheoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002

**4.** Yn rheoliad 6(5)(b) o Reoliadau Grantiau Safonau Addysg (Cymru) 2002 hepgorer—

(a) "archwilydd a benodwyd gan"; a

(b) "i archwilio cyfrifon yr awdurdod neu unrhyw archwilydd sydd â chymhwyster i gael ei benodi yn rhinwedd adran 14(4) a (9) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004".

### Rheoliadau Addysg (Grantiau Cyfalaf) (Cymru) 2002

**5.** Yn rheoliad 5(4)(b) o Reoliadau Addysg (Grantiau Cyfalaf) (Cymru) 2002 hepgorer—

(a) "archwilydd a benodwyd gan"; a

(b) "i archwilio cyfrifon yr awdurdod neu unrhyw archwilydd sydd â chymhwyster i gael ei benodi yn rhinwedd adran 14(4) a (9) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004".

### Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002

**6.** Yn rheoliad 6(6)(b) o Reoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002 hepgorer—

(a) "archwilydd a benodir gan"; a

(b) "i archwilio cyfrifon yr awdurdod neu unrhyw archwilydd sydd â chymhwyster i gael ei benodi yn rhinwedd adran 14(4) a (9) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004".

### Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005

**7.**—(1) Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle pob cyfeiriad at "yr archwilydd" rhodder "Archwilydd Cyffredinol Cymru".

(3) Yn lle rheoliad 15(2)(c) rhodder—

---

(**1**) O.S. 1998/2573 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/686. Mae offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

"(c) yr archwilydd yw Archwilydd Cyffredinol Cymru a chynnwys cyfeiriad Archwilydd Cyffredinol Cymru;".

(4) Yn rheoliad 20 yn lle "cyfarwyddo archwilydd i gynnal" rhodder "cynnal".

### Rheoliadau Enwau Cwmnïau, Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig a Busnesau (Awdurdodau Cyhoeddus) 2009

**8.**—(1) Mae Rheoliadau Enwau Cwmnïau, Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig a Busnesau (Awdurdodau Cyhoeddus) 2009(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yng Ngholofn 1 o'r Atodlen ("awdurdodau cyhoeddus" penodedig a rhestr o adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff eraill y mae rhaid ceisio eu barn) mewnosoder yn y man priodol—

"Wales Audit Office (known in Welsh as "Swyddfa Archwilio Cymru")".

(3) Yng Ngholofn 2 o'r Atodlen ("awdurdodau cyhoeddus" penodedig a rhestr o adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff eraill y mae rhaid ceisio eu barn) mewnosoder yn y man priodol—

"Wales Audit Office (known in Welsh as "Swyddfa Archwilio Cymru")".

(**2**) O.S. 2009/2982 y mae iddo ddiwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn